sportwales
chwaraeoncymru

# CYNLLUNIAU TEITHIO COVID-19

O ystyried pandemig byd-eang presennol COVID-19, mae angen lleihau risgiau wrth deithio'n rhyngwladol a rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n teithio bod diwydrwydd dyladwy wedi'i weithredu. Nod yr wybodaeth isod yw rhoi rhywfaint o arweiniad ynghylch y meddyliau a'r ystyriaethau sy'n ofynn wrth gynllunio teithiau rhyngwladol yn ystod COVID-19.

## ASESIAD RISG TEITHIO



Bydd angen ysgrifennu asesiad risg teithio penodol ar gyfer pob taith a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan swyddog meddygol COVID-19.

Dylid dilyn yr holl gyngor presennol ynghylch teithio rhyngwladol a'i adolygu tan y dyddiad teithio.

Dylai cynlluniau wrth gefn fod yn eu lle ar gyfer pob senario waethaf.

Bydd angen i asesiadau risg gynnwys unrhyw ofynion profi penodol sy'n ofynnol ar gyfer teithio / cystadleuaeth.

Sicrhau bod yswiriant teithio priodol yn ei le.

## DULL PERSON GANOLOG O WEITHREDU

Rhaid cael trafodaeth gynnar a rheolaidd gyda phob athletwr neu aelod o dîm sy'n cael ei ystyried ar gyfer teithio rhyngwladol.

Byddwch yn sensitif i amgylchiadau unigol cyfredol yn y cyd-destun chwaraeon a'r tu allan iddo.

Trefnwch gyfarfod un i un gyda'r athletwr neu'r aelod o'r tîm.

Rhannwch y ddogfen asesu risg ac unrhyw brotocolau teithio penodol gyda'r athletwr / aelod o'r tîm ymhell cyn teithio.



## ADDYSG AC YMDDYGIAD



Rhowch sylw i unrhyw bryderon a / neu anghenion addysgol penodol y tynnwyd sylw atynt yn y cyfarfod un i un.

Defnyddiwch wybodaeth ddibynadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth i addysgu am bandemig COVID-19.

Rhaid cael trafodaeth agored gyda'r athletwyr ynghylch disgwyliadau ac ymddygiad wrth deithio.

Dylid addysgu a pharatoi athletwyr ar gyfer unrhyw newidiadau allweddol yn eu harferion teithio arferol er mwyn helpu i liniaru unrhyw effeithiau posibl ar berfformiad.

## OPTIO I MEWN / OPTIO ALLAN

Cynghorir bod chwaraeon yn datblygu eu proses 'optio i mewn' eu hunain ar gyfer teithio, ar gyfer athletwyr a staff sy'n cael eu hystyried ar gyfer teithio.

Dylai optio i mewn fod yn broses seiliedig ar wybodaeth.

Dylai'r rhai sydd wedi dewis 'optio i mewn' i deithio fod â'r hawl i 'optio allan' ar unrhyw adeg tan y dyddiad teithio.




EWCH I:
https://www.sport.wales/content-vault/elite-travel-guidance/ AM RAGOR O FANYLION AM BOB CAM O'R BROSES

Oherwydd bod tirlun pandemig COVID-19 yn newid yn gyflym, bydd y cyfarwyddyd hwn a'r ffynonellau o gyfeiriadau mae'n cyfeirio atynt yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

Crëwyd Tachwedd 2020

powered by
PIKTOCHART